**Vaughan Gething AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/8085/16

Dr Dai Lloyd AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

19 Rhagfyr 2016

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd ynghylch fy mhenderfyniad i sefydlu Addysg Iechyd Cymru, gyda'r bwriad iddo ddechrau gweithredu o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Bydd y pwyllgor yn ymwybodol bod y cyhoeddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol gan Mel Evans. Roedd y gwaith hwn yn archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi'r buddsoddiad a wnaed mewn addysg gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru.

Yn dilyn proses ymgysylltu helaeth, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y trefniadau'n dameidiog, yn brin o gydweithio go iawn ar draws yr elfennau meddygol ac anfeddygol o'r gweithlu ac nad oedd yn cynnig gwerth am arian.

Argymhellodd yr adroddiad hwnnw y dylid sefydlu corff newydd i Gymru a fyddai'n dod â swyddogaethau allweddol ynghyd sydd wedi'u hanelu at gefnogi gweithlu cynaliadwy ar gyfer y GIG yng Nghymru. Roedd y gwaith dilynol a wnaed gan yr Athro Robin Williams yn canolbwyntio ar yr opsiynau ar gyfer corff newydd, ac ystyriwyd yn briodol i'w weithredu yng Nghymru.

Rwy'n fodlon bod model arfaethedig yr Athro Williams yn rhoi cyfle gwirioneddol i Gymru fynd i'r afael â materion y gweithlu ar sail dull mwy integredig a chydweithredol ar draws y proffesiynau. Bydd y Cadeirir a'r Prif Weithredwr yn sefyll ochr yn ochr â'u cymheiriaid yn sefydliadau'r GIG, gan sicrhau bod yr agweddau o'r datblygiadau sy'n ymwneud â'r gweithlu yn bwynt trafod annatod o'r cychwyn. Bydd y lefel mynediad hwn hefyd yn galluogi i Addysg Iechyd Cymru gynnig a hyrwyddo arloesi o safbwynt nad yw'n cael ei yrru gan fuddiant grwpiau o broffesiwn penodol.

Rwy'n ystyried hyn yn gyfle i sicrhau effaith fwyaf ein buddsoddiad yn ein gweithlu.

Mae tîm gweithredu prosiect yn y broses o gael ei benodi a bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith mwy manwl o gefnogi'r broses o sefydlu a gweithredu Addysg Iechyd Cymru. Rwy'n disgwyl i'r gwaith hwn fynd rhagddo yn ystod hanner cyntaf 2017 er mwyn bod yn sail i'r ddeddfwriaeth ofynnol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y dywedais yn fy natganiad, rwy'n bwriadu cynnal ymgynghoriad byr ddechrau 2017. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar nifer o feysydd y byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau a barn rhanddeiliaid arnynt sy'n ymwneud â phontio i'r sefydliad newydd.

Yn olaf, gofynnoch am y trefniadau ar gyfer gweithio gyda sefydliadau yr effeithir arnynt yn ystod y cyfnod pontio hwn. Gallaf gadarnhau bod fy swyddogion eisoes wedi cysylltu â'r sefydliadau hyn. Mae fy ngwaith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar nodi'r dull mwyaf priodol o ymgysylltu a sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ar bob lefel o'r gwaith hwn.

Camau cynnar y rhaglen waith yw'r rhain, ac mae'r trefniadau llywodraethu terfynol yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Byddwn yn hapus i roi diweddariadau i'r pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport